Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Adroddiad i'r Pwyllgor Llawn o dan Reol Sefydlog 9.9:

Adroddiad i'w Drosglwyddo i'r Trydydd Cynulliad - 2003 i 2007

Cyflwyniad

Mae'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn un o saith o bwyllgorau pwnc y Cynulliad. Cyn newid teitlau'r Gweinidogion ar 1 Ebrill 2006, enw'r Pwyllgor oedd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â Rheol Sefydlog 9.9 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd am hynt eu rhaglenni gwaith. Paratowyd yr adroddiad ar wahân i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2006-07, ac mae'n cynnwys materion allweddol y mae'n bosibl y bydd Pwyllgorau a fydd yn ei olynu am eu trafod yn ystod y Trydydd Cynulliad.

Mae copïau o adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau'r cyfarfodydd i'w cael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

Trosolwg Strategol

Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cyfateb i bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Addysg, dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Ymhlith pethau eraill, mae'r portffolio'n cynnwys ysgolion, addysg bellach, addysg uwch, meithrin sgiliau, y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth gyrfâu. Mae'r cylch gwaith llawn ar ddiwedd yr Ail Gynulliad ynghlwm yn Atodiad 1.

Dyma aelodau'r Pwyllgor:

Peter Black (Y Cadeirydd)	Democratiaid Rhyddfrydol	De-orllewin Cymru
Jane Davidson (Y Gweinidog)	Llafur	Pontypridd
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
William Graham	Ceidwadwyr	Dwyrain De Cymru
Irene James	Llafur	Islwyn
Janet Ryder	Plaid Cymru	Gogledd Cymru
Owen John Thomas	Plaid Cymru	Canol De Cymru

Bu'r Aelodau Cynulliad a ganlyn hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad: Leighton Andrews; David Davies; Mark Isherwood; Helen Mary Jones; a Denise Idris Jones.

Gwaith a'r hyn a gyflawnwyd

Cyfarfu'r Pwyllgor 60 gwaith yn ystod yr Ail Gynulliad. Cyfarfu hefyd ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 27 Ionawr, 2005, 13 Mawrth 2006 ac 8 Mawrth 2007, i drafod Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor ym Mhort Talbot ym mis Medi 2005 a chynhaliodd gyfarfod i lansio adolygiad polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol yn Ysgol Arbennig Meadowbank, Caerdydd ym mis Tachwedd 2004 ac yn Ysgol Arbennig Trinity Fields, Ystrad Mynach ym Mis Mawrth 2007.

Nod y Pwyllgor yn ystod y pedair blynedd oedd craffu ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a monitro'r ffordd y cawsant eu gweithredu i hyrwyddo a hybu newidiadau hirdymor parhaus i wella ansawdd addysg yng Nghymru, gan roi pwyslais ar ehangu cyfleoedd o safon o ran addysg a dysgu gydol oes i bawb yng Nghymru.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ystod yr Ail Gynulliad i'w weld yn Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyfarfod Llawn .

Materion i'w Trosglwyddo i Bwyllgorau sy'n ei Olynu

Mae'r Pwyllgor wedi nodi'r canlynol fel materion y dylai'r Pwyllgorau sy'n ei olynu eu trafod fel rhan o'u rhaglenni gwaith yn ystod cyfnod y Trydydd Cynulliad. Nid yw'r materion hyn wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn blaenoriaeth benodol.

Craffu ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

Dyma'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrff perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor:

- **Estyn** – Swyddfa Arolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yw Estyn. Y mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond caiff ei hariannu ganddi o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998
- **Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru** – Corff proffesiynol hunan-reolaethol statudol yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer athrawon Cymru
- **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** – Sefydlwyd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ym mis Mai 1992 o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, i hyrwyddo addysg uwch o safon ryngwladol ragorol yng Nghymru, er lles unigolion, y gymdeithas a'r economi, yng Nghymru ac yn ehangach.
- **Gyrfa Cymru** - Gwasanaeth ar gyfer Cymru gyfan yw Gyrfa Cymru sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i bobl o bob oed ynglyn â gyrfaoedd. Sefydlwyd Gyrfa Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn 2001 gan ddwyn ynghyd chwe chwmni gyrfaoedd ar draws Cymru o dan un enw.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid parhau i fonitro'r cyrff hyn gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- eu cynlluniau corfforaethol;
- craffu ar berfformiad y corff ac ystyried y blaenoriaethau a'r her sy'n eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd nesaf; a
- sut y mae'r corff yn gweithio gyda'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

N ystod yr Ail Gynulliad, cafodd swyddogaethau nifer o gyrff eu huno â Llywodraeth Cynulliad Cymru gan ehangu'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Dyma nhw:

- Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa);
- ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru)
- Dysg (Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau Cymru gynt) ; ac
- Asiantaeth Ieuenctid Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r gwaith o fonitro perfformiad a gwaith yr Adran yn gyffredinol, yn dilyn y penderfyniad i uno'r cyrff dan sylw â Llywodraeth Cynulliad Cymru, fod yn flaenoriaeth barhaus.

Monitro a Chraffu ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi sylw penodol i'r materion a ganlyn ym maes Addysg Uwch ac Addysg Bellach:

- Gweithredu'r ffioedd dysgu newydd a'r cynllun cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru a chapio'r ffioedd ar ôl 2009.
- Cynigion i Ailgyflunio'r Sector Addysg Uwch yng Nghymru..
- Monitro'r broses o weithredu'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser a'r cynnydd a wnaed yn y cyswllt hwn ar ôl cyhoeddi Adolygiad Graham[1].
- Monitro a dilyn hynt y Cynllun Newid Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar ôl cyhoeddi Adroddiad Furlong[2].
- Monitro'r broses o weithredu'r adolygiad sy'n cael ei Gadeirio gan Syr Adrian Webb o genhadaeth a diben Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun "Gwlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith "[3].
- Monitro hynt y gwaith o ddarparu cyrsiau Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Sgiliau

[1] Adolygiad Graham: Adolygiad o Addysg Uwch Ran Amser – Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006

[2] Adroddiad Furlong Ionawr 2006

[3] Dogfen Ymgynghori: Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Diben Addysg Bellach yng Nghymru

Ym maes meithrin Sgiliau, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi sylw penodol i'r materion a ganlyn:

- Monitro hynt agenda Llwybrau Dysgu 14-19 a sut y caiff ei weithredu.
- Monitro sut y mae Bagloriaeth Cymru yn cael ei chyflwyno'n raddol ar draws y wlad.
- Monitro hynt Cynllun Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith.
- Monitro i ba raddau y mae Dysgu yn y Gymuned ar gael ac yn parhau.
- Monitro'r broses o weithredu argymhellion Adroddiad Leitch[4].
- Monitro ac adolygu'r trefniadau newydd ar gyfer y Consortiwm Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCET).
- Ystyried a monitro canlyniadau adroddiad terfynol Hyrwyddwr Sgiliau Galwedigaethol i'r Gweinidog

Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion

Ym maes y Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi sylw penodol i'r materion a ganlyn:

- Monitro'r gwaith o adolygu'r Cwricwlwm Cenedlaethol sydd ar y gweill ar hyn o bryd.
- Monitro'r gwaith o gyflwyno cynlluniau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen ar draws Cymru, ar gyfer plant 3 - 7 oed.
- Monitro hynt targed presennol y Llywodraeth o ran sicrhau bod holl adeiladu ysgolion yn addas i'r diben erbyn 2010.

Cynghori ac Eirioli

- Monitro'r gwaith o weithredu'r polisïau a'r camau i'w cymryd yn dilyn argymhellion Adroddiad Clywch[5].
- Monitro'r gwaith o weithredu polisïau o ganlyniad i'r argymhellion yn adolygiad polisi Anghenion Addysgol Ychwanegol y Pwyllgor.

Iaith Pawb

- Monitro hynt Iaith Pawb[6] – cynllun gweithredu Dwyieithog ar gyfer Cymru Ddwyieithog – ym maes Addysg .

Cynllunio'r Gweithlu

- Monitro hynt Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Trafod Adroddiadau Blynyddol

- Prif Arolygwr Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru; a
- Comisiynydd Plant Cymru.

---

[4] Leitch Report: Review of Skills December 2006
[5] Clywch Report
[6] Iaith Pawb: A National Action Plan for a Bilingual Wales

Trefniadau ar gyfer Monitro Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd Plant

Bydd y Pwyllgorau sy'n olynu'r Pwyllgor hwn hefyd am ystyried y trefniadau craffu penodol y dylid eu dilyn wrth fonitro Adroddiadau Blynyddol y Comisiynydd Plant.

Yn ystod yr Ail Gynulliad, byddai'r Adroddiadau'n cael eu monitro drwy gynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Yn eu cyfarfod ar 8 Mawrth 2007, cytunodd y Pwyllgorau y byddai'n ddymunol i Bwyllgor o'r Cynulliad cyfan gynnal y cyfarfod monitro blynyddol yn y Trydydd Cynulliad. Cytunwyd hefyd y byddai'n ddymunol sefydlu Pwyllgor Plant yn y Trydydd Cynulliad i drafod materion trawsbynciol sy'n effeithio ar blant.

Adolygiadau Polisi

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal nifer o Adolygiadau Polisi yn ystod yr Ail Gynulliad. Bydd y Pwyllgorau sy'n ei olynul am barhau i adolygu hynt y gwaith o weithredu'r argymhellion hynny a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Dyma'r adolygiadau dan sylw:

- Anghenion Addysgol Arbennig:

Cam 1 - Tachwedd 2004:	Adnabod ac ymyrryd yn gynnar[7],
Cam 2 - Mai 2006:	Asesiadau Fframwaith Statudol[8]
Cam 3 - Mawrth 2007:	Pontio[9]

- Cludiant i'r Ysgol[10] – Ebrill 2005

At hyn, bydd y Pwyllgorau sy'n ei olynu hefyd am barhau i adolygu hynt y gwaith o weithredu argymhellion y Pwyllgor yn ei adroddiad ar ariannu ysgolion yng Nghymru[11] (Mehefin 2006).

[7] Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar Tachwedd 2004
[8] Fframwaith Assu Statudol (Datganiadau) Mai 2006
[9] Pontio Mawrth 2007
[10] Cludiant i'r Ysgol Mai 2005
[11] Trefniadau Ariannu Ysgolion yng Nghymru Mehefin 2006

Atodiad 1

Portffolio’r Pwyllgor

Yn unol ag adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae portffolio'r Pwyllgor yn cyfateb i bortffolio Gweinidog y Cynulliad:

- Addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru;
- Safonau addysg mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys gweithgareddau Estyn;
- Trefniadaeth ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys cymeradwyo uno a chau ysgolion;
- Goruchwylio'r awdurdodau addysg lleol yng Nghymru;
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru;
- Unrhyw faterion sy'n ymwneud â disgyblion ag anghenion addysg arbennig;
- Unrhyw faterion yn ymwneud â chymwysterau academaidd yn gyffredinol;
- Ariannu ysgolion sefydledig (ysgolion a gynhelir â grant gynt) yng Nghymru;
- Safonau addysgu yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Arfarnu athrawon yng Nghymru, ond **nid** tâl ac amodau athrawon (nid yw tâl athrawon ac ati wedi ei ddatganoli);
- Polisïau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru;
- Holl weithgareddau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;
- Rheoli ffioedd y mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn eu codi ar fyfyrwyr (DS mater yn gysylltiedig â Deddfwriaeth Sylfaenol yw hwn yn bennaf-gweler Deddf Addysg ac Addysg Uwch 1998. Ond mae gan y Cynulliad y pŵer i roli ffioedd “atodol” e.e. mewn perthynas â defnyddio offer labordy neu ymweliadau maes);
- Polisi gyrfaoedd, gan gynnwys holl weithgareddau cwmnïau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd;
- Gwasanaethau ieuenctid a materion ieuenctid yn gyffredinol;
- Darparu a chefnogi hyfforddiant seiliedig ar waith a hyfforddiant galwedigaethol arall yng Nghymru;
- Arolygu darparwyr hyfforddiant a chwmnïau'r gwasanaeth gyrfaoedd;
- Darparu rhaglenni cyflogaeth o ochr y cyflenwyr, gan gynnwys y Fargen Newydd, ond **heb gynnwys** rhaglenni eraill a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyflogaeth (nad yw wedi ei ddatganoli).
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cymorth, ysgolion iach, canolfannau plant integredig, chwarae a gofal plant (ond nid gwaith rheoleiddio ASGC sy’n rhan o gyfrifoldebau’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)